



# Rhaglen DARC (Deep Space Advanced Radar Capability): Cwestiynau i Sir Benfro ac i Gymru

**Academi Heddwch Cymru**

**Hydref 2024**

Academi
Heddwch
Cymru

## YNGHYLCH Y DDOGFEN HON

Bwriad y ddogfen hon ydy helpu i lywio trafodaeth a dadl ar y rhaglen DARC yng Nghymru, a chynorthwyo awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'n disgrifio rhai o'r materion y mae DARC yn eu codi, ac yn nodi cyfres o gwestiynau i'w hateb.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei datblygu gan staff Academi Heddwch Cymru, dan arweiniad yr Athro Colin McInnes. Mae'n rhoi ystyriaeth o ddifrif i'r adroddiad a baratowyd ar gyfer Academi Heddwch Cymru gan Dr Dylan Marshall (Prifysgol Aberystwyth) a Dr Louise Ridden (Prifysgol Tampere, y Ffindir). Bydd eu hadroddiad llawn ar gael ar wefan Academi Heddwch Cymru yn https://www.wcia.org.uk/academiheddwch/. Mae Academi Heddwch Cymru yn ddiolchgar i Dr Marshall a Dr Ridden am eu cefnogaeth. Academi Heddwch Cymru sy'n gyfrifol am y ddogfen hon.

Academi Heddwch Cymru yw sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru. Mae'n sefydliad ymchwil annibynnol sy'n ceisio ymestyn traddodiad cryf Cymru o greu heddwch a hyrwyddo heddwch, trwy ddatblygu a chydlynu cymuned annibynnol o ymchwilwyr mewn meysydd cysylltiedig. Ei nod yw sicrhau'r canlynol:

- Bod Cymru'n gwneud cyfraniad i ymchwil ac ymarfer heddwch, a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol
- Bod ffocws ar heddwch i'w weld yn strategaethau a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru
- Bod y cyhoedd yn ymgysylltu'n gryf gydag ymchwil ac ymarfer heddwch yng Nghymru

Sefydlwyd Academi Heddwch yn 2020, ac mae'n gynghrair o'r Prifysgolion yng Nghymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA). Mae'n cael ei gefnogi hefyd gan gynrychiolwyr o'r Mudiad Heddwch yng Nghymru, Cyngor Hil Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Rotari Rhyngwladol a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

# Rhaglen Darc (Deep Space Advanced Radar Capability): Cwestiynau i Sir Benfro ac i Gymru

## 1. Y Cyd-destun Strategol

Mae DARC yn fenter yr Unol Daleithiau, y DU ac Awstralia (AUKUS) i ddatblygu rhwydwaith o orsafoedd radar ar y ddaear. Y bwriad yw gwella'r wyliadwriaeth ar y gofod yn sylweddol o ystyried y ddibyniaeth gyfoes – yn sifil a milwrol - ar systemau sy'n seiliedig ar ofod. Yn ychwanegol at y risg o wrthdrawiadau damweiniol (a'r potensial am raeadr drychinebus o'r rhain – 'effaith Kessler'), mae Strategaeth Ofod Genedlaethol y DU yn amlygu pryderon dwfn ynghylch y bygythiad i ddiogelwch y DU ac economi'r DU gan alluoedd gofod ein gelynion.

Mae rôl y DU yn y rhaglen DARC yn rhan o strategaeth ehangach ôl-Brexit i gyflwyno'r DU fel actor o arwyddocâd byd-eang. Mae'n helpu i gadarnhau'r 'berthynas arbennig' gyda'r Unol Daleithiau a chynghrair strategol AUKUS, a chynnal rôl arweiniol yn y bartneriaeth rhannu cudd-wybodaeth 'pum llygad'.[1] Er bod y Llywodraeth Lafur newydd wedi symud i ffwrdd o rethreg y weinyddiaeth flaenorol o 'Brydain Fyd-eang', mae'n dal i gynnal yr uchelgais i fod yn actor rhyngwladol allweddol, gan gynnwys ymgysylltu'n helaeth yn y rhanbarth Indo-Bassifig strategol bwysig. Nid yw wedi nodi unrhyw newid yng nghefnogaeth y DU i DARC.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i letya gosodiad DARC y DU yng Nghymru ym Marics Cawdor yn Sir Benfro. Mae disgwyl i'r gwaith o adeiladu'r prif elfennau ddechrau ar unwaith, ac i'r safle fod yn weithredol erbyn 2030. Mae'r datblygiad yn amodol ar asesiad o'r effaith amgylcheddol ac ar ganiatâd cynllunio awdurdodau lleol. Os gwrthodir caniatâd cynllunio, yna mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud y bydd yn apelio, a fyddai'n mynd â'r mater gerbron Llywodraeth Cymru.

Er nad yw DARC yn system arfau, mae'n osodiad milwrol; mae ei ddyluniad a'i weithrediad yn cael eu harwain gan fyddin yr Unol Daleithiau yn fyd-eang, a chan y

[1] Gydag Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau.

Weinyddiaeth Amddiffyn yn y DU; mae’ r rhaglen yn cael ei chyflwyno fel rhan o gynghrair strategol AUKUS sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch yn yr ardal Indo-Basiffig; ac mae'n cael ei datblygu o flaen cefndir o filwroli gofod ehangach a galluoedd gofod esblygol gan sawl prif bŵer. Mae cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch a yw DARC yn mynd yn groes i gyfraith ryngwladol, ac a fyddai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydymffurfio ag unrhyw achos o dorri cyfraith ryngwladol. Mae'n ymddangos bod DARC hefyd yn eistedd yn anghyfforddus gyda strategaeth ryngwladol bresennol Llywodraeth Cymru, ac yn benodol, ei nod datganedig i sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

***Cwestiwn 1:*** *Ydy DARC yn cydymffurfio â chyfraith ryngwladol a normau cyfredol ynghylch peidio â militareiddio’r gofod?*

***Cwestiwn 2:*** *I ba raddau y mae DARC yn peryglu nod datganedig Cymru o fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang?*

Mae gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ddatblygiad DARC yn parhau i fod yn gyfyngedig. Nid yw'n glir pa rôl sydd gan y DU, os o gwbl, yn y broses ddatblygu, beth yw union gyfraniad y DU i DARC y tu hwnt i letya’r offer, pwy a sut y bydd yn cael ei weithredu rhwng cynghreiriaid, a pherchnogaeth a defnyddio’r wybodaeth a gynhyrchir gan y rhwydwaith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gallu awdurdodau cenedlaethol a lleol i sicrhau bod camau gweithredu ar y safle yn cydymffurfio â rheoliadau lleol a Chymru.

***Cwestiwn 3:*** *Beth fydd y berthynas gyfreithiol rhwng y DU a'i chynghreiriaid ar y safle? Pa sicrwydd sydd ar gael y cydymffurfir â rheoliadau lleol a chenedlaethol? Pwy fydd yn berchen ar yr wybodaeth ac yn defnyddio’r wybodaeth?*

## 2. Goblygiadau Iechyd Posibl

Mae pryderon iechyd wedi cael eu codi gan randdeiliaid lleol, gan gynnwys y grŵp pwysau lleol 'PARC yn erbyn DARC' sy'n honni bod yr aráe radar yn "un o'r prosiectau ymbelydredd mwyaf uchel a roddwyd ar dir Prydain erioed." [2] Mae corff sylweddol - os caiff ei herio - o dystiolaeth o’r risgiau iechyd posibl yn sgil datblygiadau o'r fath. Mae Paul Davies AS a'r cyn-AS Stephen Crabb wedi cydnabod yn benodol, bod angen mwy o wybodaeth a bod angen cynnal asesiad o oblygiadau iechyd. Er ei fod o blaid DARC, mae'r cynghorydd lleol Mark Carter hefyd wedi dweud bod angen cael cadarnhad nad oes goblygiadau iechyd i drigolion lleol.[3]

Mae'r angen am dryloywder a sicrwydd ar effaith iechyd posibl DARC yn cael ei ddwysáu gan enghreifftiau blaenorol o ganlyniadau iechyd negyddol i gymunedau lleol o safleoedd milwrol[4]. Dim ond yn rhannol y cafodd y pryderon hyn sylw yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Solfach a Dewi Sant ar 13 a 14 Medi 2024, gyda chyfeiriadau amwys yn cael eu gwneud at ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd.

Dylai lles corfforol a meddyliol y rhai sy'n byw yn agos at y safle arfaethedig fod yn flaenoriaeth i'r holl randdeiliaid, ond ar hyn o bryd, nid yw'n glir bod pryderon wedi cael sylw boddhaol, sydd wedi arwain at ansicrwydd yn y gymuned leol. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn fater o rymuso cymunedau lleol ac adeiladu ymddiriedaeth hefyd.

---

[2] Sir Benfro yn Erbyn Radar DARC’, Iechyd, https://parcagainstdarc.com/health.
[3] Tom Sinclair, ‘Deep Space Radar Base to Be Built in Pembrokeshire, Creating 100 Jobs’, *Herald.Wales* (blog), 2 Rhagfyr 2023, https://www.herald.wales/national-news/deep-space-radar-base-to-be-built-in-pembrokeshire-creating-100-jobs/.
[4] Er enghraifft, Tom Perkins, ‘Toxic PFAS from US Military Bases Polluting Drinking Water, Report Finds’, *The Guardian*, 13 Hydref 2023, adran. Environment, https://www.theguardian.com/environment/2023/oct/13/pfas-pollution-us-military-bases-forever-chemicals.

***Cwestiwn 4:*** *A fydd asesiad annibynnol yn cael ei wneud o'r risgiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â'r camau adeiladu a gweithredu, gan gynnwys presenoldeb deunyddiau ymbelydrol ordnans heb ffrwydro, a halogiad gan asbestos?*

## 3. Effaith Amgylcheddol

Bydd elfen y DU o DARC yn cynnwys 27 lloeren (pob un yn 20m o uchder a 15m o led) yn ogystal â seilwaith cefnogol sylweddol.[5] Mae'r safle arfaethedig ym marics Cawdor yn gorwedd wrth ymyl ac o fewn golwg hawdd i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac yn agos at safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Felly, mae pryderon eang am yr effaith amgylcheddol yn yr ardal hon o sensitifrwydd uchel.

Mae'r pryderon hyn yn cynnwys y canlynol:

(i) Yr effaith weledol, cael ei lleoli ger ffordd, ac yn weladwy o ardal o harddwch naturiol sy'n arwyddocaol yn fyd-eang, ac sy'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd
(ii) Ar fywyd gwyllt, gan gynnwys nifer o rywogaethau a warchodir a phatrymau mudo adar
(iii) Ar y gymuned, sydd â pherthynas ddofn â'r amgylchedd naturiol y maent yn byw ynddo
(iv) Ar reoli dŵr a'r posibilrwydd o lygredd dŵr
(v) Ac ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd sero net, o ystyried pryderon ynghylch ôl troed carbon posibl DARC.

Bydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol (AEA) ar gyfer y safle, ond nid yw'r amserlen yn glir (sy'n arbennig o bryderus gan fod arwyddion y bydd rhywfaint o'r gwaith yn dechrau'n fuan iawn). Mae hefyd yn aneglur a fydd y broses AEA yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol ac yn ddigon hyblyg i fynd i'r afael â'r ystod o bryderon

[5] Ni ellid dod o hyd i ddata gwreiddiol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu o rywle arall i wirio'r union gynlluniau ar gyfer y cyfleuster, https://www.bbc.com/news/articles/c6ppnyzjr4lo. Gweler hefyd 'EIA Scoping report. Project DARC - Cawdor Barracks' (Leeds: Montagu Evans; SWECO, 10 Mawrth 2023).

amgylcheddol sydd wedi cael eu codi. Yn anad dim, mae pryderon y bydd y ffocws ar elfennau mesuradwy yn hytrach nag ar brofiad byw preswylwyr.

***Cwestiwn 5:*** *Pryd fydd yr asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei gynnal, gan bwy, beth fydd y broses, pwy fydd yn cael ei ymgynghori, a sut y bydd hyn yn cael ei ddilyniannu ag amserlen y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer adeiladu?*

# 4. Potensial Economaidd

Hyd y gwyddom, nid yw asesiad llawn o'r effaith economaidd o gam adeiladu DARC, na'i bresenoldeb hirdymor yn yr ardal leol, wedi'i gynnal eto.

Mae'n ymddangos bod tair set eang o faterion economaidd ar gyfer cymunedau lleol ac i Gymru.

Yn gyntaf, gall effaith weledol y safle a'r cyhoeddusrwydd sy'n ymwneud ag ef gael effaith niweidiol ar dwristiaeth i Sir Benfro yn gyffredinol ac yn enwedig, i'r ardal leol. Roedd ymchwil yn 2019 yn awgrymu bod twristiaeth werth £590M i economi Sir Benfro, ac yn fwy diweddar, mae'n ymddangos bod twristiaeth i Gymru wedi cynyddu oherwydd yr argyfwng costau byw a chost carbon teithiau awyr.

Yn ail, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn amcangyfrif y bydd DARC yn ychwanegu 100 o swyddi yn uniongyrchol ac yn fwy anuniongyrchol, yn ogystal â chyfleoedd tymor byr sy'n gysylltiedig ag adeiladu, a fydd yn gwrthbwyso'n rhannol y 300 o swyddi a gollir o ganlyniad i ymadawiad y 14eg Gatrawd Signalau sydd wedi'i lleoli ar hyn o bryd ym Marics Cawdor. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod asesiad wedi cael ei gynnal o fanteision economaidd posibl defnyddiau amgen o'r safle.

Yn drydydd, mae mentrau cydweithredu diwydiannol amddiffyn, fel DARC, yn cefnogi agenda twf economi genedlaethol Llywodraeth y DU, ac yn cael eu hadleisio'n fras gan Strategaeth Ofod Genedlaethol Llywodraeth Cymru (2022), sy'n gobeithio cipio 50% o gyfanswm marchnad ofod y DU erbyn 2030[6]. Mae'r Llywodraeth Lafur hefyd yn debygol

[6] Llywodraeth Cymru: Welsh Government, 'Cynllun newydd i lansio sector gofod Cymru i orbit' 21 Chwerfror 2022, https://www.gov.wales/new-plan-launch-wales-thriving-space-sector-orbit.

o weld DARC fel prosiect sy'n gysylltiedig â dros 1,000 o swyddi ehangach yn y DU (gan gynnwys tua 100 yng Nghaerdydd) fel rhan o weithgareddau diwydiannol amddiffyn ehangach AUKUS. Fodd bynnag, yn sgil nifer o gaffaeliadau amddiffyn cost uchel a strategol amheus yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf[7], mae beirniaid yn dadlau dros adleoli rhannau o'r gyllideb amddiffyn yn uniongyrchol i feysydd angen eraill ar gyfer y DU[8]. Ar ben hynny, mae cysylltu twf economaidd â chydweithredu diwydiannol amddiffyn yn milwreiddio cymunedau, gyda goblygiadau ehangach i gymdeithas.

***Cwestiwn 6:*** *A fydd asesiad economaidd llawn, annibynnol yn cael ei gynnal sy'n cynnwys ystyried perfformiad blaenorol prosiectau o'r fath o ran twf economaidd a chyflogaeth? Ac a fydd asesiad yn cael ei wneud o'r graddau y bydd hyn yn cyfrannu at filwreiddio economi Cymru?*

***Cwestiwn 7:*** *A fydd asesiad economaidd yn cael ei wneud o ddefnyddiau amgen posibl ar gyfer y safle, o ystyried cynsail Parc Busnes Brawdy sydd wedi profi galw mawr, a helpu i gryfhau'r economi leol?*

[7] Jack Detsch, 'The Royal Navy Has More Ambitions Than Assets', *Foreign Policy* (blog), 24 Gorffennaf 2024, https://foreignpolicy.com/2022/10/03/hms-queen-elizabeth-britain-royal-navy-ambitions-assets/; Deborah Haynes, 'Military Procurement Failures Hindered UK's Ability to Secure Tanks, Damning Review Finds', *Sky News*, 15 Mehefin 2023, https://news.sky.com/story/military-procurement-failures-hindered-uks-ability-to-secure-tanks-damning-review-finds-12903148.
[8] Jennifer Scott, '"Bairns Not Bombs": SNP Calls for End to Two-Child Benefit Cap and Pledges NHS Funding Boost', *Sky News*, 19 Mehefin 2024, https://news.sky.com/story/bairns-not-bombs-snp-calls-for-end-to-two-child-benefit-cap-and-pledges-nhs-funding-boost-13155332.

## 5. Goblygiadau ar gyfer Llywodraethiant Cymru

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud y bydd angen caniatâd cynllunio awdurdodau lleol i ddatblygu'r safle ym Marics Cawdor. Os gwrthodir hyn, yna mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud y bydd yn apelio i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arwain at ymchwiliad gan Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, a byddai'n debygol o gynnwys gwrandawiad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus. Does dim rôl ffurfiol i'r Senedd yn hyn o beth, er y gall dadl gael ei sbarduno wrth gwrs. Byddai penderfyniad Llywodraeth Cymru ond yn destun Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys ar sail gweithdrefn. Fodd bynnag, byddai'r Uchel Lys yn cynnwys asesiad i benderfynu a oedd darpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi cael eu hystyried yn foddhaol[9].

Yn y cyfarfodydd cyhoeddus ym mis Medi, dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y byddai'r penderfyniad terfynol yn gorwedd gyda'r Llywodraeth yng Nghymru, nid Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Hawliau Datblygu a Ganiateir yn caniatáu i Lywodraeth y DU gyflawni datblygiadau at ddibenion diogelwch cenedlaethol, heb gael caniatâd cynllunio lleol.

***Cwestiwn 8:*** *O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried trafodaeth yn y Senedd i drafod DARC?*

***Cwestiwn 9:*** *A fydd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn nwylo Cymru yn unig, neu a allai proses arall - fel Hawliau Datblygu a Ganiateir - gael ei defnyddio gan Lywodraeth y DU os gwrthodir caniatâd cynllunio?*

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cael eu cynnal, sydd wedi galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i esbonio'r prosiect i gymunedau lleol a mynd i'r

[9] Ewch i Ymchwil y Senedd, *Y Gyfres Gynllunio 6: Apeliadau,* sydd ar gael yn https://research.senedd.wales/media/lopnd1dy/appeals-web-english.pdf.

afael â'r pryderon a godwyd ganddynt. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau hyn yn tueddu i fod yn arwynebol[10] – yn anochel o ystyried eu natur - ac mae gwybodaeth bellach yn parhau i fod yn anodd ei chael. Gan fod ymddiriedaeth a pharch yn bileri canolog mewn cymunedau heddychlon, mae'r lefel isel o ymgynghori lleol yn creu'r perygl o ddiffyg democrataidd a all fod yn niweidiol i brofiadau beunyddiol heddwch yn y cymunedau o amgylch y safle. Os na roddir ystyriaeth i bryderon y gymuned, yn enwedig o ran materion amgylcheddol a'r effaith ar hunaniaeth genedlaethol Cymru, gallai achosi i ymddiriedaeth gael ei chwalu ymhellach rhwng cymunedau Cymru a Llywodraeth y DU.

***Cwestiwn 10:*** *Ydy'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu cyflwyno achos manylach dros graffu cyhoeddus, ac a yw'n bwriadu bod ar gael ar ôl hynny i gael ei holi ar faterion sy'n parhau i bryderu cymunedau lleol a Llywodraeth Cymru?*

***Cwestiwn 11:*** *Sut mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â chymunedau lleol i adeiladu ymddiriedaeth?*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA) yn ddarn o ddeddfwriaeth allweddol a nodedig i Gymru. Mae ymgysylltu â'r Ddeddf a mynd i'r afael â'r 7 Nod Llesiant cysylltiedig yn bwysig nid yn unig i ansawdd bywyd Cymru yn y dyfodol, ond o ran parchu Cymru fel cenedl ddatganoledig. Mae'n ymddangos bod cynnig DARC yn effeithio'n uniongyrchol ar y mwyafrif o'r Nodau Llesiant, ond pan gafodd ei holi ym mis Medi yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, nid oedd staff y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymwybodol o'r Ddeddf, ac nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i gysylltu â'r Comisiynydd nac ychwaith, i gyfeirio at y Nodau Llesiant. Hyd yn oed os yw DARC y tu allan i gylch gwaith WBFGA a rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n cyd-fynd ag ysbryd meddylfryd cenedlaethau'r dyfodol.

***Cwestiwn 12:*** *Sut bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r Nodau Llesiant?*

---

[10] Mae'r Byrddau Gwybodaeth ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66e7eb7ce47cfc6de429d74f/DARC_Proposal_at_Cawdor_Barracks.pdf.